

Stop It Now!

WALES | CYMRU

Helping prevent
child sexual abuse

Gweminar aml-asiantaethol ar atal cam-drin plant yn rhywiol

Dewisiwch un o'r dyddiadau canlynol:

Dydd Mawrth, 23ain Chwefror 2021

Dydd Llun, 1af Mawrth 2021

Dydd Mercher, 24ain Chwefror 2021

Dydd Mercher, 3ydd Mawrth 2021

Fe'ch gwahoddir i fynychu gweminar am ddim a gaiff ei hariannu
gan Lywodraeth Cymru.

I archebu eich lle, cofrestrwch [yma](#)

Atal Cam-drin Plant yn Rhywiol a Llinell Gymorth Stop It Now! (cyflwynir gan Tom Squire)

10 yb – hanner dydd

Crynodeb o'r Sesiwn:

Bydd y weminar hon yn helpu cyfranogwyr i ddeall y materion sy'n ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol, prosesau meddwl tramgwyddwyr a phwysigrwydd ein gwaith. Bydd y sesiwn yn ymdrin â:

- Graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yn y DU.
- Y broses mae oedolion yn ei defnyddio i gyflawni troseddau rhywiol.
- Model iechyd cyhoeddus ar atal cam-drin plant yn rhywiol.
- Llinell gymorth Stop It Now!
- Datblygu atal eilradd: Ymgyrch atal SLF ac adnoddau ar-lein.

Mae Tom Squire MA, BSc, Diploma mewn Astudiaethau Prawf yn Rheolwr Clinigol gyda Sefydliad Lucy Faithfull, lle mae wedi gweithio er 2007. Cyn ymuno â Sefydliad Lucy Faithfull, bu'n gweithio o fewn y Gwasanaeth Prawf. Mae Tom yn cynnal asesiadau risg arbenigol ar gyfer ystod o asiantaethau, ac yn darparu hyfforddiant, cyngor ac ymgynghoriaeth i weithwyr proffesiynol eraill. Mae'n darparu cefnogaeth glinigol i Llinell gymorth Stop It Now!. Mae Tom yn chwarae rhan bwysig wrth hyrwyddo ymgyrch atal Sefydliad Lucy Faithfull ynghylch gwyllo delweddau anwedus o blant ac, yn 2018, fe arweiniodd ar ddatblygu fforwm ar-lein ar gyfer teulu a ffrindiau o'r rhai sydd wedi troseddu yn rhywiol ar-lein.

Deall Ymddygiad Rhywiol Problemus mewn Plant Ifanc (cyflwynir gan Dr Ian Burke)

1 yp – 3 yp

Crynodeb o'r Sesiwn:

Bydd y weminar hon yn ymdrin a'r pwnc, ymddygiad rhywiol problemus (YRhP) mewn plant ifanc. Gan ddechrau gyda thro-solwg, bydd y weminar yn:

- Amlinellu achos ymddygiad rhywiol problemus.
- Trafod beth yw ymddygiad rhywiol iach yn erbyn yr hyn sy'n broblemus ac sy'n peri pryder.
- Sut rydym yn mynd i'r afael a'r ymddygiadau hyn.
- Yna bydd y weminar yn defnyddio Theori 'Polyvagal' Dr Stephen Porges i'n helpu ni ddeall anghenion penodol plant sy'n arddangos YRhP sydd wedi profi trawma eu hunain.

Mae Dr Ian Burke yn Seicolegydd Clinigol a Fforensig Cofrestredig (HCPC) ac yn Seicolegydd Siartredig (BPS). Ymunodd â Sefydliad Lucy Faithfull yn 2020 lle mae ei waith yn canolbwyntio ar ddarparu asesiad ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol problemus mewn plant a'u teuluoedd lle mae trawma yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol. Cyn ymuno â SLF, bu lan yn gweithio gyda 'Forensic CAMHS' a gyda Gweithredu dros Blant - Gwasanaeth Cymorth Lleoli Dwysedd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae gan lan hefyd brofiad helaeth o weithio fel Seicolegydd Milwrol gyda Lluedd Amddiffyn Iwerddon.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch a:

Claire Short ar 07720590129 neu cshort@lucyfaithfull.org.uk

Gill Jones ar 07803629628 neu gjones@lucyfaithfull.org.uk

**THE
LUCY FAITHFULL
FOUNDATION**

Working to protect children